**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2025**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Polisi a Diwygio Ardrethi Annomestig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2025. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Mark Drakeford AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**21 Ionawr 2025**

## RHAN 1: MEMORANDWM ESBONIADOL

### Disgrifiad

1. Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2025 (“Rheoliadau 2025”) yn pennu'r lluosydd ardrethu annomestig ("NDR") ar gyfer Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26. Maent yn adlewyrchu'r penderfyniad a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr 2024 i gynyddu'r lluosydd 1%, yn hytrach na defnyddio twf yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ("CPI") sef 1.7%.

### Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2. Dim.

### Y cefndir deddfwriaethol

3. Mae Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (“Deddf 1988”) yn rhagnodi'r dull diofyn o ymdrin â chynnydd blynyddol yn y lluosydd, gan ystyried CPI. Caiff y lluosydd ei gymhwyso i werth ardrethol pob eiddo annomestig i gyfrifo ei fil NDR.

4. Ar gyfer blynyddoedd ariannol pan nad yw rhestrau ardrethu newydd yn cael eu llunio (sy'n cynnwys 2025-26), y sefyllfa ddiofyn ar gyfer pennu'r lluosydd NDR i Gymru yw defnyddio'r fformiwla a nodir ym mharagraff 3B o Atodlen 7 i Ddeddf 1988. Y fformiwla yw:

   $$(A \times B) / C$$

   Allwedd:
   A yw'r lluosydd ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol
   B yw'r CPI ar gyfer mis Medi'r flwyddyn ariannol flaenorol
   C yw'r CPI ar gyfer mis Medi'r flwyddyn ariannol ddwy flynedd cyn hynny

5. O dan baragraff 5(13A) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i ddiwygio, diddymu neu ddatgymhwyso is-baragraffau (5A), (5AA), (5B), (9A) a (9B) o baragraff 5 yn yr Atodlen honno. Effaith hyn yw galluogi rheoliadau i naill ai ddefnyddio mynegai gwahanol i CPI, neu bennu ffigurau amgen ar gyfer B a/neu C. Gan fod offerynnau statudol a newidiodd y lluosydd mewn blynyddoedd blaenorol wedi dewis newid y ffigur ar gyfer B, ystyrir mai'r dull hwn sy'n darparu'r eglurder deddfwriaethol mwyaf. Y ffigur hwn y mae Gweinidogion Cymru yn cynnig ei ddisodli wrth wneud Rheoliadau 2025.

6. Bydd y pŵer galluogi ym mharagraff 5(13A) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988 yn cael ei ddiddymu a'i ailddeddfu ym mharagraff A18 o Ran A2 o'r Atodlen honno, ar 1 Ebrill 2025. Mae adran 35(3) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn darparu, lle y gallai is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan ddarpariaeth a ddiddymwyd fod wedi'i gwneud o dan ddarpariaeth a ailddeddfwyd, y bydd y ddeddfwriaeth honno yn cael effaith fel pe bai wedi'i gwneud o dan y ddarpariaeth a ailddeddfwyd. O ystyried y byddai sylwedd Rheoliadau 2025 yr un fath pe baent yn cael eu gwneud o dan y ddarpariaeth a ailddeddfir ym mharagraff A18 o Ran A2 o Atodlen 7, bydd Rheoliadau 2025 yn cael eu trin fel

pe baent wedi'u gwneud o dan y pŵer hwnnw o 1 Ebrill 2025 ymlaen, er gwaethaf diddymu'r pŵer galluogi presennol ym mharagraff 5(13A) o Atodlen 7.

7. Mae Rheoliadau 2025 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

**Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

8. Mae angen Rheoliadau 2025 i gyfyngu'r cynnydd yn y lluosydd NDR i 1% ar gyfer 2025-26, yn hytrach na'i gynyddu yn ôl CPI. Bydd hyn yn arwain at luosydd o 0.568, o'i gymharu â 0.562 ar gyfer 2024-25.

9. Mewn blynyddoedd blaenorol, y dull a ddefnyddiwyd i bennu lluosydd gwahanol oedd addasu'r ffigur ar gyfer B. Er mwyn darparu eglurder a chysondeb, ac o ystyried bod y newid yn berthnasol i un flwyddyn ariannol yn unig, mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu gwneud y newid ar gyfer 2025-26 drwy roi ffigur amgen ar gyfer B, yn lle CPI ar gyfer Medi 2024. Mae hyn yn arwain at gynnydd is ym miliau NDR talwyr ardrethi ar gyfer 2025-26 na'r 1.7% a fyddai'n berthnasol fel arall.

10. Er mwyn cynyddu'r lluosydd 1%, rhaid i'r gwerth ar gyfer B fod yn C wedi'i luosi ag 1.01. Y ffigur ar gyfer C yw 132.0 (CPI ar gyfer Medi 2023). Mae hyn yn golygu mai'r ffigur amgen ar gyfer B er mwyn sicrhau cynnydd o 1% yw 133.3 (yn lle 134.2, sef y ffigur CPI ar gyfer Medi 2024).

11. Bydd Rheoliadau 2025 yn gymwys i flwyddyn ariannol 2025-26 yn unig. Mae offerynnau tebyg wedi cael eu defnyddio i gyfyngu cynnydd yn y lluosydd bob blwyddyn ers 2018-19.

12. Bydd holl berchnogion neu feddianwyr eiddo annomestig sy'n talu ardrethi yn elwa ar y newid. Bydd hyd yn oed eiddo sy'n cael symiau sylweddol o ryddhad ardrethi yn elwa, gan y bydd yr atebolrwydd gweddilliol yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio lluosydd is.

13. Mae'r holl ardrethi annomestig a gesglir yng Nghymru'n cael eu rhoi mewn cronfa ganolog ac yn cael eu dosbarthu i'r awdurdodau lleol ac i'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu fel rhan o setliadau blynyddol llywodraeth leol. Gelwir y cyfanswm i'w ddosbarthu fel hyn yn "Swm Dosbarthadwy". Fe'i cyfrifir drwy gymhwyso'r lluosydd i gyfanswm cenedlaethol amcangyfrifedig y gwerth ardrethol, gan ystyried unrhyw warged neu ddiffyg a gariwyd ymlaen o'r blynyddoedd blaenorol.

14. Mae'r Swm Dosbarthadwy yn gydran allweddol o'r setliadau refeniw blynyddol ar gyfer llywodraeth leol ac mae Deddf 1988 yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei gymeradwyo gan y Senedd fel rhan o *Adroddiadau Cyllid Llywodraeth Leol* a gyhoeddir yn flynyddol. Mae angen i'r lluosydd, felly, gael ei bennu cyn y gellir rhoi trefn derfynol ar y setliadau blynyddol.

15. Bydd cyfyngu'r cynnydd yn y lluosydd yn lleihau incwm y gronfa ardrethi annomestig yn 2025-26. Bydd y gostyngiad yn cael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru a chaiff ei adlewyrchu yn y cyfrifiadau ar gyfer setliadau

llywodraeth leol, fel nad oes unrhyw effaith ariannol ar gyllidebau awdurdodau lleol na chyllidebau'r heddlu.

**Ymgynghori**

16. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ar y polisi y tu ôl i Reoliadau 2025. Mae'r cynigion o fudd i bob talwr ardrethi yng Nghymru ac nid oes unrhyw effaith ar yr adnoddau sydd ar gael i'r awdurdodau lleol na gwasanaethau'r heddlu.

## RHAN 2: ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### Yr opsiynau

17. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cyflwyno tri opswn mewn perthynas â phennu'r lluosydd ar gyfer 2025-26. Mae'r opsiynau a ystyriwyd fel a ganlyn:

- ***Opsiwn 1 – Defnyddio CPI i gynyddu'r lluosydd (gwneud dim)****.* Byddai'r opsiwn hwn yn cynyddu'r lluosydd 1.7%, i 0.571. Ni fyddai angen unrhyw ddeddfwriaeth.

- ***Opsiwn 2 – Deddfu i gyfyngu'r cynnydd yn y lluosydd i 1% (gwneud Rheoliadau 2025)****.* Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at luosydd o 0.568.

- ***Opsiwn 3 – Deddfu i rewi'r lluosydd****.* Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at unrhyw gynnydd yn y lluosydd, gan aros yn 0.562.

### Costau a manteision

***Opsiwn 1 – Defnyddio CPI i gynyddu'r lluosydd (gwneud dim)***

18. Mae'r canlynol yn dangos effaith defnyddio CPI i gynyddu'r lluosydd ar fil ardrethi annomestig eiddo.

19. Er enghraifft, os oes gan eiddo werth ardrethol (fel y'i haseswyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio) o £15,000, y bil ardrethi ar gyfer 2024-25 (cyn unrhyw ryddhad) fyddai:

    £15,000 x 0.562 = £8,430

20. Byddai defnyddio CPI yn arwain at fil ardrethi blynyddol ar gyfer 2025-26 o:

    £15,000 x 0.571 = £8,565

21. Y cynnydd yn y tâl blynyddol, felly, fyddai £135. Gan mai dyma'r sefyllfa ddiofyn a nodir ar hyn o bryd mewn deddfwriaeth sylfaenol, ni fyddai unrhyw gost i Lywodraeth Cymru wrth fynd ar drywydd yr opsiwn hwn.

***Opsiwn 2 – Deddfu i gynyddu'r lluosydd 1% (gwneud Rheoliadau 2025)***

22. Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at gynnydd o 1% mewn biliau ardrethi ar gyfer pob eiddo annomestig nad yw'n cael rhyddhad llawn. Gan ddefnyddio'r enghraifft o Opsiwn 1, y bil ardrethi ar gyfer 2024-25 oedd:

    £15,000 x 0.562 = £8,430

23. Byddai cynnydd o 1% yn y lluosydd ar gyfer 2025-26 yn arwain at fil o:

    £15,000 x 0.568 = £8,520

24. Y canlyniad yw cynnydd o £90 mewn ardrethi ar gyfer yr eiddo, sydd £45 yn is na phe bai'r lluosydd yn cynyddu yn ôl CPI (Opsiwn 1).

25. Amcangyfrifir cyfanswm arbedion o tua £7m yn 2025-26 i dalwyr ardrethi ledled Cymru. Byddai pob talwr ardrethi unigol nad yw eisoes yn cael rhyddhad llawn yn elwa ar lefel sy'n gymesur â'i atebolrwydd. Byddai hyn yn arbediad cylchol i dalwyr ardrethi a byddai yna gost gylchol gyfatebol i Lywodraeth Cymru.

***Opsiwn 3 – Deddfu i rewi'r lluosydd***

26. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at unrhyw gynnydd mewn biliau ardrethi ar gyfer pob eiddo annomestig. Gan ddefnyddio'r enghraifft o Opsiynau 1 a 2, y bil ardrethi ar gyfer 2024-25 oedd:

    £15,000 x 0.562 = £8,430

27. Byddai rhewi'r lluosydd ar gyfer 2025-26 yn arwain at fil o:

    £15,000 x 0.562 = £8,430

28. Ni fyddai rhewi'r lluosydd yn arwain at unrhyw newid mewn atebolrwydd ardrethi ar gyfer yr eiddo. Yn yr enghraifft hon, byddai atebolrwydd ardrethi £135 yn is na phe bai'r lluosydd yn cynyddu yn ôl CPI (Opsiwn 1) a £80 yn is na phe bai'r lluosydd yn cynyddu 1% (Opsiwn 2).

29. Amcangyfrifir cyfanswm arbedion o tua £20m yn 2025-26 i dalwyr ardrethi ledled Cymru. Byddai pob talwr ardrethi unigol nad yw eisoes yn cael rhyddhad llawn yn elwa ar lefel sy'n gymesur â'i atebolrwydd. Byddai hyn yn arbediad cylchol i dalwyr ardrethi a byddai yna gost gylchol gyfatebol i Lywodraeth Cymru.

**Dewis opsiwn**

30. Llywodraeth Cymru fyddai'n ysgwyddo'r gost o bennu lluosydd is (Opsiynau 2 a 3) ac fe fyddai'n gost gylchol. Ni fyddai unrhyw effaith ariannol ar yr awdurdodau lleol na gwasanaethau'r heddlu. Byddai Opsiwn 2 yn gwneud y defnydd mwyaf posibl o gyllid canlyniadol a gafwyd yn sgil cyhoeddiad cysylltiedig Llywodraeth y DU ar gyfer Lloegr yng Nghyllideb yr Hydref. Cydnabyddir y byddai Opsiwn 3 yn mynd ymhellach, o ran atal cynnydd mewn biliau i dalwyr ardrethi. Byddai'r gost ychwanegol, fodd bynnag, yn ei gwneud yn ofynnol i gyllid gael ei ddargyfeirio o flaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru.

31. Opsiwn 2, felly, yw'r opsiwn a ffefrir. Mae'n adlewyrchu'r dull a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 10 Rhagfyr 2024. Mae hyn yn cydbwyso fforddiadwyedd ac awydd Llywodraeth Cymru i helpu talwyr ardrethi gyda'u biliau.

**Dyletswyddau**

32. ***Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015****.* Bydd cyfyngu cynnydd yn y lluosydd yn cynorthwyo pob talwr ardrethi nad yw'n cael rhyddhad llawn ac, o'r herwydd, bydd yn helpu i gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant ar gyfer Cymru lewyrchus a mwy cyfartal.

33. ***Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn***. Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar hawliau plant.

34. ***Y Gymraeg***. Ni nodwyd unrhyw effaith ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg nac o ran trin yr iaith yn gyfartal.

35. ***Cydraddoldeb***. Ni nodwyd effeithiau penodol, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig (fel y'i pennir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

36. ***Y sector gwirfoddol***. Bydd cyfyngu cynnydd yn y lluosydd o fudd i bob talwr ardrethi nad yw'n cael rhyddhad llawn, gan gynnwys y rhai sy'n gweithredu yn y sectorau gwirfoddol, elusennol ac nid-er-elw.

37. ***Cyfiawnder***. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol ar y system gyfiawnder.

38. ***Asesu'r gystadleuaeth****.* Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth wedi'i gymhwyso i Reoliadau 2025. Gan fod y newid o fudd i bob talwr ardrethi nad yw'n cael rhyddhad llawn, ni nodwyd unrhyw effaith ar gystadleuaeth yng Nghymru.

39. ***Adolygu ar ôl gweithredu****.* Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro effaith y newid ar y gronfa ardrethi annomestig.